



Yn ogystal â bod yn un o'n hoff awduron ym maes llyfrau plant ac yn arlunydd medrus, roedd Beatrix Potter hefyd yn naturiaethwraig dalentog. Roedd hi wrth ei bodd mewn ardaloedd cefn gwlad, yn tynnu lluniau o flodau, coed, anifeiliaid, a ffyngau yn arbennig; roedd hyn i gyd yn ymarfer da ar gyfer y darluniadau a barodd i'w llyfrau ennill cymaint o boblogrwydd yn ddiweddarach.

Mae'r gweithgaredd hwn yn mynd â chi'n agos at un o'r llecynnau a ysbrydolai Beatrix Potter pan fyddai'n ymweld â'i hewythr a'i modryb, ac mae'n cynnig nifer o awgrymiadau syml i'ch helpu chithau hefyd i fraslunio.

Cyn i chi ddechrau



Sut mae cyrraedd yno

Bydd y gweithgaredd hwn yn digwydd wrth i chi fynd ar daith drwy goedwig ar gyrion Dinbych.

Saif y goedwig nid nepell oddi ar ffordd y B4501 o Ddinbych i gyfeiriad Nantglyn. Wrth i chi adael Dinbych, ar ôl rhyw filltir byddwch yn dod at arwydd wrth ymyl y ffordd yn cyfeirio at Cae Dai – Amgueddfa Dinbych yr 1950au.

Cod Post:

LL16 4SU
(cod post Amgueddfa Cae Dai yw hwn)

Cludiant Cyhoeddus

I gael manylion am opsiynau cludiant cyhoeddus, ffoniwch Traveline Cymru ar 0871 200 2233 neu Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol ar 0845 48 49 50.

Man cychwyn y gweithgaredd:

I ddechrau'r gweithgaredd, sefwch gan wynebu arwydd 'Cae Dai', ac yna ewch ar hyd y llwybr sy'n arwain i'r chwith, heibio'r gamfa a dilynwch lwybr y goedwig tuag i lawr.

Gadewch i ni gychwyn

Os ydych chi'n newydd i'r gamp o fraslunio byd natur, yna peidiwch â phoeni os na fydd pethau'n troi allan yn berffaith y tro cyntaf. Dilynwch eich greddfau gan weld i ble bydd hyn yn eich arwain!

Mae'n amlwg y bydd y tymhorau'n cael dylanwad mawr ar yr hyn y gallwch chi ei fraslunio, ac yn ystod y gwanwyn a'r haf mae'r caeau a'r gwrychoedd yn llawn blodau gwylt, o betalau gwyn godidog y serenllys (stichwort), i felyn y llygadlys (celandine) a phinc y gludlys coch.

Roedd tynnu lluniau a phaentio blodau yn ddefnyddio awr hamdden arferol i ferch ifanc fel Beatrix Potter, oedd yn perthyn i ddsbarth canol cyfnod Oes Fictoria. Ni fu hi'n hir cyn meithrin ei dawn a datblygodd arddull lle byddai'n copïo blodau, a hynny mewn ffordd fanwl gywir a thrwyadl.


Mae rhai o'i phaentiadau mwyaf manwl o flodau yn ymddangos yn The Tale of Tom Kitten, lle gwelir y cathod yn chwarae mewn gardd fwthyn sy'n llawn blodau trilliw (fioled), rhosynnau a thrwyn y llo (snapdragon). Yn The Tale of Jemima Puddle-Duck, mae'r blodau tal, main hynny, sef bysedd y cŵn, yn cael lle amlwg, tra mai lilis dŵr sy'n cael sylw yn The Tale of Mr. Jeremy Fisher. **(1)**

Erbyn hyn, dylech fod yn cerdded ar hyd y llwybr sy'n eich arwain i lawr drwy'r goedwig. **(2)** Ar ôl munud neu ddwy, dylech ddod at arwydd. Trowch i'r dde yn y fan hon, ac ewch yn eich blaen i lawr y llwybr grisiog.

Mae blodau'n amrywio'n fawr o ran eu siâp, maint a'u lliw. Ond edrychwch yn ofalus, ac fe welwch y gallwch fraslunio'r rhan fwyaf drwy ddefnyddio nifer fach o siapiau sylfaenol yn unig – cylchoedd ar gyfer blodau fel llygad y dydd, siâp silindr ar gyfer 'utgorn' bysedd y cŵn neu siâp conigol neu gwpan ar gyfer blodau sy'n blaguro, fel rhosyn.

Bydd rhai blodau yn unigol ac yn grwn, fel dant y llew neu lygad y dydd, tra bydd eraill yn glwstwr ar goes, fel yr helygys hardd (rosebay willowherb). Edrychwch yn ofalus ar sut mae pennau'r blodau, y petalau, y goes a'r dail i gyd yn cyd-fynd.

Os ewch yn eich blaen drwy'r goedwig, fe ddowch at gae; mae'r afon yn llifo ar y chwith, ac yn y fan hon fe welwch bont a bwrdd picnic lle gallech osod a pharatoi eich defnyddiau braslunio. **(3)**



Beth yw hyd y gweithgaredd hwn?

Ni ddylai'r daith gerdded gymryd mwy na rhyw 20 munud i hanner awr. Ond gallwch gymryd faint a fynnoch o amser i fraslunio, paentio neu luniadu'r hyn welwch chi o'ch cwmpas yn y goedlan.



Beth fydd ei angen arnoch

Pensiliau, papur a rhwbiwr.

Esgidiau cryfion – gall pethau fynd yn fwdlyd braidd!

Camera neu ffôn âamera i dynnu lluniau cyfeirio.

Awgrymiadau Gwerth Chweil:

Mae pensiliau meddalach – wedi'u labelu yn 'B' – yn wych ar gyfer cysgodion, tra bod pensiliau caletach – wedi'u labelu yn 'H' – yn well ar gyfer manylion a mannau lle mae angen graddliwio ysgafn.



Gwybodaeth ddefnyddiol

Nodwch os gwelwch yn dda fod y daith gerdded hon yn arwain drwy goetir, caeau ac wrth ymyl yr afon, felly dylech gymryd gofal ar bob adeg. Gall y llwybr fod yn eithaf serth ar adegau, ac mae yma nifer o risiau, felly mae'n bosib nad yw'n addas ar gyfer bygis neu goetsis babis.

Mae'r daith gerdded drwy'r goedwig yn rhan o lwybr 2-3 awr sy'n arwain heibio Neuadd Gwaenynog lle'r arferai Beatrix Potter aros pan fyddai'n ymweld â'r ardal. Ceir manylion am y daith, ynghyd â map, yn y llyfryn Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych, sydd ar gael o'r ganolfan groeso yn llyfrgell Dinbych neu gellir lawrlwytho copi o www.cefnwladssirddinbych.org.uk

Os byddwch yn penderfynu cerdded i Neuadd Gwaenynog, cofiwch os gwelwch yn dda ei fod yn gartref preifat. Er hynny, mae'r gerddi ar agor i'r cyhoedd, drwy drefniant yn unig, rhwng misoedd Mehefin ac Awst.

I gael mwy o wybodaeth:

Cysylltwch â Neuadd Gwaenynog yn ystod misoedd yr haf ar 0174 581 2066. Tâl mynediad: £3

www.sirddinbych.gov.uk/cefnwlad

Mae blodyn crwn, e.e. llygad y dydd neu flodyn menyf, yn flodyn da i roi cychwyn arni. Ar yr adeg iawn o'r flwyddyn, mae'r blodau hyn i'w gweld yn y cae, ynghanol y borfa. Tynnwch siâp cylch ac yna ychwanegwch ail gylch llai o faint yn ei ganol.

Byddai'n syniad da mynd ati i rannu'r cylch mwy o faint drwy osod nifer o farciau ysgafn ar hyd yr ymyl er mwyn rhoi syniad i chi faint o betalau sydd angen eu hychwanegu. Gallwch rwbio'r marciau canllaw hyn allan nes ymlaen.

Tynnwch lun y petalau drwy ddefnyddio llinellau siâp U, gan ddechrau o'r canol, a defnyddio llinellau ysgafn er mwyn gwneud i'r petalau edrych yn gywrain.


Yn olaf, gallwch ychwanegu coes sy'n gwyro rhyw ychydig, ac mae hyn yn gwneud i'r blodau edrych yn fwy naturiol, a deilen neu ddwy ar y naill ochr a'r llall.

Mae dail yn rhywbeth y gallwch dynnu eu llun unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn. Fel blodau, mae dail i'w cael ym mhob lliw a llun, felly, craffwch yn ofalus yn gyntaf ar beth fyddwch chi'n ei luniadu.

Mae dail, yn aml, yn gymesur, gyda'r ochr dde yn adlewyrchu'r chwith bron. Edrychwch yn fanwl ar ymyl y ddeilen hefyd – bydd rhai yn llyfn tra bod eraill yn ddanheddog ac yn bigog hyd yn oed, fel celyn.

Nawr am lafn y ddeilen. A yw'n sgleiniog, llyfn, anwastad neu'n flewog hyd yn oed? Sut mae'r gwythiennau'n rhedeg ar draws yr arwyneb? Ydyn nhw'n ymledu o wythien fawr ganolog, neu ydyn nhw'n gorwedd yn gyfochrog?

Edrychwch ymhlith y coed wrth ymyl yr afon am ddail i'w braslunio – byddai dail llyfn, crwm y garleg gwyllt sy'n tyfu ar lawr y goedwig hefyd yn destun da, neu chwiliwch am wahanol ddail sydd wedi disgyn o'r coed. (4)





Nôl i'r man cychwyn

Er mwyn cyrraedd y car, bydd angen i chi fynd nôl ar hyd yr un ffordd, drwy'r cae ac i fyny drwy'r goedwig. Byddwch ofalus, mae'r daith yn ôl yn arwain i fyny'r rhiw!



Dweud eich dweud

Dywedwch wrthom ni beth roeddech chi'n feddwl am y gweithgaredd hwn a rhannwch rai o'ch brasluniau ar dudalen Facebook Darganfod Sir Ddinbych.

Edrychwch yn ofalus ar y goes. Anaml iawn y bydd hon yn gwbl syth, ond yn hytrach bydd y coesau'n gwro rhyw ychydig wrth dyfu tuag at y golau.

Unwaith y byddwch chi wedi rhoi cynnig ar ddeilen neu ddwy, chwiliwch am un â thipyn o dro ynddi; anaml iawn y bydd dail yn gwbl wastad ond yn amlach na pheidio maen nhw'n crychu ac yn cyrlio fel eich bod yn gallu gweld yr wyneb isaf mwy llwyd-welw. Craffwch i weld sut mae'r golau'n disgyn ar y ddeilen. Gallwch dynnu sylw at y nodweddion hyn drwy arlliwio rhai rhannau penodol.


Mae'r coed o amgylch y cae a'r ardal goeddiog yn lle gwych i ddod o hyd i destun arall posib i'w fraslunio - yn yr hydref, chwiliwch am ffyngau sy'n ymwthio o'r ddaear, neu'n tyfu o foncyffion coed, canghennau a phrennau marw eraill.

Roedd Beatrix Potter yn rhagori ar dynnu lluniau ffyngau ac roedd hi wedi'i chyfareddu gan eu lliwiau cyfoethog a'u manylion cywrain ac fe ddaeth yn dipyn o arbenigwraig ar fycoleg. (5)

Dechreuwch drwy dynnu llun cap y fadarchen. Gall hwn fod yn siâp carreg fechan gron, neu'n bigfain, neu'n fath o ffwng bachog sy'n tyfu fel cragen fylchog o ochr coeden. Gall rhai capiau fod yn llyfn, tra bod arwyneb eraill yn gribog a garw.

Mae'r coesau'n aml yn eithaf trwchus a byrdew, a thrwy droi'r goes ychydig i un ochr, gallwch helpu i ddod â'r llun yn fyw.

Nawr, tynnwch lun y tagellau dan y cap drwy ychwanegu nifer o linellau fertigol er mwyn rhoi gwead i'r fadarchen. Daliwch ati i ychwanegu manylion drwy fraslunio brychau a phlygiadau ar y goes, neu efallai bod aderyn neu wllthen wedi cnoi darn o'r cap? (6)



Tymor y gaeaf yw'r adeg arbennig honno pan fydd yr amlinellau o goed crwca sy'n creu cysgodluniau gwefreiddiol yn erbyn wybren lawn i'w gweld ar eu gorau.

Gwnewch yn siŵr bod min hir ar flaen eich pensil cyn i chi ddechrau. Os defnyddiwch gyllell yn hytrach na miniwr, gallwch naddu min gwirioneddol fain ac yna defnyddio'r blaen ar gyfer manylion a'r ymyl i dynnu llinellau llydan ac i greu graddliwiau.

Edrychwch yn ofalus ar eich coeden a phenderfynwch a ydych yn mynd i ddewis un goeden arbennig, neu dynnu llun sawl un gyda'i gilydd. (7)



Gan ddechrau gyda'r boncyff, defnyddiwch linellau bras ar gyfer yr amlinelliad, yna amrywiwch y lled, fel bod y gwaelod yn llydanach a'r brig yn gulach. Edrychwch ar sut mae'r golau'n disgyn ar y goeden ac ychwanegwch rhywfaint o gysgod ar un ochr i'r boncyff drwy ddal y pensil ar ei ochr rhyw ychydig a defnyddio ymyl y lled.

Y canghennau nesaf. Mae'r rhain fel arfer yn dechrau tua thri chwarter y ffordd i fyny'r boncyff. Fe welwch fod y canghennau is yn aml yn hirach ac yn ymestyn allan yn fwy gwastad, tra bod y canghennau uwch yn fyrrach ac yn estyn yn syth i fyny. Cofiwch amrywio trwch y canghennau hefyd, a graddliwch rai ohonyn nhw fel eu bod yn cyd-fynd â'r boncyff.

Gallwch ychwanegu rhywfaint o fanylder hefyd, fel hen nyth aderyn neu wâl wiwer i fyny'n uchel yn y goeden, neu, os ydych wedi tynnu llun sawl coeden gyda'i gilydd, beth am eu troi'n nythle brain, gyda nifer o adar duon yn troelli yn yr awyr ar eu ffordd i glwydo?

Os ydych yn bwriadu cynnwys rhywfaint o liw yn eich lluniau ar ôl cyrraedd adref, mae'n werth tynnu ffotograff o'r hyn y buoch yn ei luniadu, fel bod gyda chi rywbeth i gyfeirio nôl ato nes ymlaen.

Unwaith y byddwch wedi braslunio'ch ffordd o amgylch y goedwig, yr afon a'r cae, byddwch yn barod i ddychwelyd i'r car. Bydd angen i chi fynd yn ôl ar hyd yr un ffordd, gan fod yn ofalus wrth ddringo nôl i fyny'r rhiw drwy'r goedlan.

Peidiwch anghofio am

Gan eich bod yn yr ardal, mae llawer o fannau eraill arbennig y gallech ymweld â nhw...

Muriau Castell Dinbych

Casglwch eich allwedd bersonol i ddatgloi'r glwyd sy'n eich galluogi i archwilio dros hanner milltir o furiau sy'n dal i amgylchynu'r dref. Chwiliwch am Dŵr trawiadol yr Iarlles a Thŵr y Corrach!

Casglwch allwedd o lyfrgell Dinbych ar y Stryd Fawr. Bydd staff y llyfrgell yn rhoi cyfarwyddyd i chi ynglŷn â'r man cychwyn gorau.

Rheolir muriau'r castell gan Cadw.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.cadw.wales.gov.uk neu ffoniwch 01745 813385.

Castell Dinbych

Ystyr yr enw Cymraeg 'Dinbych' yw 'Caer fechan', felly peidiwch â cholli'r cyfle i archwilio castell y dref. Roedd hon yn un o gadwyn o gaerau a adeiladwyd ar draws cefn gwlad Cymru gan Edward 1 ac mae'r porthdy tri thŵr trawiadol yn dal i gael ei ystyried yn un o ryfeddodau arbennig Cymru.

Mae'r fynedfa i'r castell ar Riw'r Castell, LL16 3NB.

Fel yn achos muriau'r castell, mae'r castell ei hun hefyd dan reolaeth Cadw.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.cadw.wales.gov.uk neu ffoniwch 01745 813385.

Castell Bodelwyddan

Saif y castell ynghanol 360 erw o barcdir godidog ac mae'n dyddio nôl i ganol yr 1800au.

Yn ogystal â bod yn dŷ ac yn amgueddfa hanesyddol, mae cyswllt cadarn yn parhau rhwng y castell â'r Oriel Bortreadau Genedlaethol; yn wir, mae gan y castell ei hun gasgliad sylweddol o weithiau celf. Ar dir y castell mae ffosydd ymarfer a ddefnyddiwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn ogystal â maes chwarae ac anturio a drysfa ynghanol gardd.

Gadewch yr A55 ar gyffordd 25 yr A55 a dilynwch yr arwyddion brown a gwyn.

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.bodelwyddan-castle.co.uk neu ffoniwch 01745 584060.